



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin
Domestig a Thrais Rhywiol

Pecyn Cymorth i Sefydliadau
Addysg Bellach sy'n cyflwyno
adnoddau addysgol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015 – RHAGLEN ADDYSG

Pecyn Cymorth i Sefydliadau Addysg Bellach sy'n cyflwyno adnoddau addysgol

Darperir y pecyn cymorth hwn i gyd-fynd ag adolygiad Cymorth i Ferched Cymru ac AVA o adnoddau addysgu sy'n bodoli ar berthnasau iach a thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dylid defnyddio'r pecyn cymorth hwn ar y cyd â'r Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru.

Cyflwyniad

Bydd llawer o'r wybodaeth am weithio mewn ysgolion uwchradd yn berthnasol ar gyfer gweithio mewn addysg bellach. Fodd bynnag mae hefyd yn bwysig cydnabod bod 'y graddau o aflonyddu rhywiol, gorfodaeth rywiol, trais a cham-drin domestig mewn poblogaethau myfyrwyr' ar draws y Deyrnas Unedig wedi'i amlygu mewn ymchwil ac arolygon trosedd. Felly mae gwaith wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r materion hyn ac arwyddo gwasanaethau cymorth yn hanfodol gyda'r grŵp oedran hwn.

Datgelodd arolwg gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr fod 37% o fenywod a 12% o ddynion yn dweud eu bod wedi profi cysylltiadau rhywiol dieisiau. Mae ymchwil hefyd wedi dangos y gall 1 ym mhob 3 myfyriwr benywaidd wynebu ymosodiad rhyw yn ystod ei chyfnod yn y brifysgol, tra bo myfyrwyr newydd mewn perygl o gael eu tynnu i ddiwylliant sy'n amharchu menywod yn agored ac yn eu gwrthrychu. Cydnabyddir trais, gorfodaeth rywiol a cham-drin domestig yn broblem iechyd cyhoeddus ddifrifol y gellid ei hatal sy'n wynebu pob prifysgol yn y Deyrnas Unedig¹.

Dull effeithiol o weithredu gyda'r grŵp oedran hwn yw 'ymyrraeth gwylieddydd' sydd wedi profi'n strategaeth effeithiol a phwysig i leihau'r duedd i weld bai ar y dioddefwr, cynyddu ymddygiad cymdeithasol a lleihau amddiffynoldeb, gan dargedu pobl ifanc fel gwylieddyddion a chynghreiriaid yn hytrach na fel troseddwyr neu ddioddefwyr posibl. Mae'r math hwn o waith ataliol hefyd yn cynyddu sgiliau cymorth ac ymddygiad ceisio cymorth.

¹ <https://www.gov.uk/government/news/evidence-into-practice-tackling-domestic-violence-in-universities-and-the-workplace>



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymarfer Da

Mae'r Fenter Ymyrryd gan Brifysgol Gorllewin Lloegr yn cynnwys pecyn o adnoddau i helpu sefydliadau addysg bellach i redeg rhaglenni gyda myfyrwyr am gam-drin domestig, trais rhywiol ac ymyrraeth gwylidydd.

<http://www1.uwe.ac.uk/bl/research/interventioninitiative.aspx>

Adnoddau i'w defnyddio mewn addysg bellach/ colegau/Prifysgolion

Enw'r Adnodd: Rhaglen Diogelwch Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) Programme

Datblygwyd gan: Cymorth i Ferched Cymru a gwasanaethau cam-drin domestig lleol, gyda chefnogaeth Prosiect Mae Plant yn Bwysig.

Dolen at yr Adnodd: <http://www.welshwomensaid.org.uk/>

Nodau: Annog perthynas iach a datblygu diogelwch, ymddiriedaeth a pharch mewn amgylchedd diogel (atal, ymwybyddiaeth a chymorth ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol thrais yn erbyn menywod).

Pynciau a drafodir: Mae'r rhaglen yn hyblyg a gellir ei defnyddio gyda grwpiau bach yn ogystal â dosbarth cyfan. Mae'r pynciau'n cynnwys perthynas iach a pharchus; cam-drin domestig a rhywiol/trais yn erbyn menywod; stereoteipiau rhywedd a chydaddoldeb; cydsyniad rhywiol; secstio; pornograffi a cham-fanteisio'n rhywiol; adeiladu gwydnwch a cheisio cymorth. Caiff y sesiynau eu harwain gan bobl ifanc gan hybu trafodaethau grŵp. Mae'r rhaglen yn galluogi pobl ifanc i adnabod arwyddion cynnar a pheryglon perthynas afiach, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau da.

Hyd: Hyblyg ac amrywiol; yn ddelfrydol mae rhaglen pobl ifanc STAR yn 8 sesiwn 1 awr o hyd

Dull cyflwyno: Tîm Mae Plant yn Bwysig Cymorth i Ferched Cymru – hwyluswyr STAR sydd wedi'u hyfforddi. Mae hyfforddiant undydd a deuddydd i hwyluswyr ar gael gan brosiect



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Plant yn Bwysig Cymorth i Ferched Cymru i gyflwyno sesiynau addysg a rhaglenni gwaith grŵp.

Enw'r Adnodd: Sexpression

Datblygwyd gan: Sexpression:UK

Dolen at yr Adnodd: <http://sexpression.org.uk/>

Nodau: Grymuso pobl ifanc i wneud penderfyniadau am ryw a pherthynas drwy redeg sesiynau anffurfiol a chynhwysfawr yn y gymuned am ryw a pherthynas.

Pynciau a drafodir: Rhyw, perthynas a newidiadau corfforol, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, rhyw diogelach ac atal cenhedlu, rhyw a chydysyniad ymarferol, perthynas a cham-drin, tueddfryd rhywiol a hunaniaeth rywiol (LGBT+), rhyw a'r cyfryngau

Hyd: Sesiynau unigol

Dull cyflwyno: Cyflwynir gan fyfyrwyr prifysgol wedi'u hyfforddi. Gall myfyrwyr prifysgol hefyd ymgeisio am hyfforddiant i ddod yn hwyluswyr.

Mae **Llwyfan Atal AVA** yn cynnwys cronfa ddata ddefnyddiol o adnoddau, gweithgareddau, ffilmiau a chynlluniau gwersi y mae modd ei chwilio yn ôl oed. Gallwch chwilio yn ôl pwnc a'r categori addysg 'addysg bellach' a dod o hyd i ragor o adnoddau.

http://www.preventionplatform.co.uk/?page_id=136